

Anerchiad Yr Arglwydd Gwilym Prys Davies

Braint i mi ydi cael y cyfle i agor pwnc y Gynhadledd i drafodaeth ac i gynnig rhai sylwadau a all fod o help i ddeall y pwnc. Y Gorchymyn Iaith a Hawl i'r Gymraeg ydi'r pwnc. [Dylsw'n egluro fy mod yn defnyddio'r term "Gorchymyn Iaith", fel llaw-fer am Orchymyn Iaith Cymhwysedd Deddfwriaethol.]

Fel chithau gwrandawais ar neges Alun Ffred Jones, y Gweinidog Treftadaeth, â diddordeb arbennig. Gwyddom ei fod yn ŵr sydd yn meddwl am gyflwr a safle'r Gymraeg ym mywyd heddiw a'i rhagolygon yn y ganrif hon, a gwyddom am ei waith daionus ar Gyngor Sir Gwynedd. Mewn cwmpas byr iawn, fe gawsom rai addewidion pendant ar ran Llywodraeth y Glymblaid am yr hyn sy'n debyg o ddilyn o'r Gorchymyn Iaith, ac fe gawsom nifer o ddatganiadau cyffredinol – rhai ohonyn' nhw, efallai, yn rhai personol ar ei ran ef ei hun.

Fe gawsom gadarnhad ei fod o a gweision sifil y Cynulliad yn brysur iawn yn llunio'r draft Orchymyn. Mae'r Athro Thomas Glyn Watkin hefo ni. Tybed a fydd o yn rhydd i'n goleuo ar ble'n union mae'r draft Orchymyn heddiw, 7 Tachwedd 2008. Ydi o wedi gadael Cabinet y Cynulliad? Fel arall, pryd y bydd yn debyg o wneud hynny? Yr wythnos nesa? Cyn diwedd y flwyddyn hon? Byddai'n dda cael gwybod am yr amserlen ar gyfer y rhan hon o'r daith? Heb weld y Gorchymyn, mae'n anodd iawn cynnig amserlen ar gyfer ei daith yn Llundain.

Fe soniodd y Gweinidog y bydd y Gorchymyn yn caniatáu i'r Cynulliad sefydlu swydd Comisiynydd Iaith, a sicrhau statws swyddogol i'r Gymraeg a'r Saesneg. Hyd y gwn i, dyna'r unig ffeithiau moel sydd gennym am sgôp y Gorchymyn. Dichon mae esiamplau yn unig ydi'r ddwy yna.

Yn ôl fy nealltwriaeth i o'r proses deddfwriaethol, bydd llawer o'r manylion hollbwysig am bwerau'r Comisiynydd ac am ystyr yr ymadrodd 'statws swyddogol' wedi eu gosod allan yn y Memorandwm Esboniadol i'w gyhoeddi

ar yr un pryd a'r drafft Orchymyn. Felly bydd yn rhaid craffu'n ofalus ar union eiriad y Memorandwm Esboniadol; fel mae'n hollol sicr y gwneir yn Llundain gan y Gweinidogion a'r Aelodau Seneddol.

Am **statws swyddogol**, bu'r Gymraeg yn disgwyl yn hir iawn – AM DRI CHWARTER CANRIF o leiaf – am statws iaith swyddogol. Medrwn roi catalog o'r galwadau ers 1938..

[ym 1938 galwyd amdano yn y Ddeiseb Iaith Genedlaethol; ym 1962 galwyd amdano yn narlith radio enwog Saunders Lewis; ym 1963 galwodd Cyngor Cymru – cyngor ymgynghorol y llywodraeth amdano; ym 1978 galwodd Cyngor yr Iaith Gymraeg, - corff ymgynghorol arall am statws swyddogol i'r Gymraeg; a phymtheg mlynedd yn ôl, pan oedd Mesur Iaith 1993 o flaen y Senedd, gwrthododd y Llywodraeth gorffori'r statws hwnnw yn y Mesur, ar y tir fod y Gymraeg eisoes yn iaith swyddogol.]

Felly, bydd Llywodraeth y Cynulliad i'w llongyfarch am sicrhau i'r Gymraeg y statws hwnnw.

Cwestiwn, "Pam y bu'n rhaid aros am dri-chwarter canrif?" Ond gan fod amser yn brin, mae'n bwysicach fy mod yn ceisio ateb cwestiwn mwy cadarnhaol: Pa wahaniaeth wna statws swyddogol?

Wel, yn gyntaf, dyna'r gwerth symbolaidd pwysig. O'r diwedd bydd gan y Gymraeg y statws cyfansoddiadol ucha' y gellir ei roi i iaith yn ei thiriogaeth ei hun. Gall ei ddylanwad fod yn anfesuradwy.

Yn ail, bydd yn gymorth i roi i'r Gymraeg y statws cyfreithiol sydd gan yr Wyddeleg yn y Gymuned Ewropeaidd - mae'n siwr y bydd Yr Athro Thomas Watkin neu Emyr Lewis yn egluro beth ydi safle'r Gymraeg ym Mrwsel ar ôl y datblygiadau diweddar a fu yno.

Yn drydydd, bydd yn rhoi arweiniad i'r llysoedd ac i'r gweinyddwyr os cyfyd ansicrwydd neu amheuaeth – ar ôl mesur a phwyso'r holl ddadleuon – ynghylch gweithredu unrhyw ddarpariaeth ddeddfwrol – dylid derbyn y dehongliad a fo'n fwyaf pleidiol i'r iaith.

Yn bedwerydd, - awgrymaf – **ac awgrym** ydi hwn, y gall statws iaith swyddogol arwain at ail-asesu'r angen am yr amod enwog honno “**cyn belled ag y bo'n briodol**” sydd ynghlwm wrth y Cynllun Iaith. Â'r egwyddor ei bod yn iaith swyddogol, yng Nghymru wedi ei derbyn, oni ddylai hyn gwrdd â'r amod ei bod yn **briodol** i'w defnyddio **gyda phob corff cyhoeddus** ym mhob rhan o Gymru, - cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol o dan yr amgylchiadau?

O gofio fel y cyfyngwyd cwmpas Deddf Iaith 1993 i'r 'cyrff cyhoeddus' yng Nghymru, mae'n bosibl, a diau'n debygol, y bydd rhai adrannau'r llywodraeth ganol am gael eu heithrio o weithredu'r egwyddor. Cawn weld am hynny.

Bydd sefydlu swydd Comisiynydd Iaith i ymchwil i achwynion yn ddealladwy iawn. Ond ar ôl ei sefydlu, bydd y Bwrdd Iaith wedi ei ryddhau o'i gyfrifoldeb am ymholi i achwynion. O ystyried hynny, ac o ystyried hefyd bod tasg y Bwrdd o gytuno Cynlluniau Iaith ar gyfer yr amrywiaeth o gyrff cyhoeddus niferus yn dechrau dirwyn i ben, oni ddaeth yr amser i ail-edrych ar gyfansoddiad y Bwrdd? Does dim sôn wedi bod am hyn, hyd y gwn i.

Mae angen Bwrdd Iaith statudol cryf a fydd yn annibynnol ar y Llywodraeth – i'r graddau y gall unrhyw gwango fod yn annibynnol – ond eto credaf y dylid ail-edrych ar ei gyfansoddiad, ei ddyletswyddau a'i aelodaeth er mwyn ei gryfhau. Er enghraifft, teg ydi gofyn prun fedrai siarad yn fwyaf awdurdodol wrth y llywodraeth: Bwrdd â'i aelodaeth yn gynrychioladol o fywyd Cymru, ynte Bwrdd o arbenigwyr cynllunio iaith. Wrth gwrs, byddai'n ddiddorol iawn cael barn Meri Huws, Cadeirydd presennol y Bwrdd, am y sylwadau hyn.

Yr hyn na all y Cynulliad ei wneud, fel y saif y Ddeddf, ydy ymestyn sgôp Deddf Iaith 1993 i'r sector breifat - ac wrth sôn am y sector breifat yn y cyswllt

hwn, yr hyn sydd yn fy meddwl, wrth gwrs, ydi'r cwmnïau masnach / busnes mawr.

Oni bai fy mod wedi colli'r pwynt, ni sylwais fod y Gweinidog wedi cyfeirio at y sector breifat. Fel y nodais, efallai mai esiamplau yn unig ydoedd ei gyfeiriad at y Comisiynydd Iaith ac at statws swyddogol. Mae'n anodd gennyf feddwl i bwysigrwydd y sector fynd yn angof.

Bu pob llywodraeth yn erbyn i'r ddeddfwriaeth iaith gyffwrdd â'r sector breifat. Dadleuwyd na ddylid gosod baich costau ychwanegol ar fusnes a masnach. Ac fe glywir y ddadl hon yn groyw iawn heddiw yn y wasgfa economaidd bresennol.

Eto, mae digwyddiadau dramatig y misoedd diwethaf, wedi dangos mor anodd mwyach ydi gwybod sut mae tynnu'r ffin rhwng y sector gyhoeddus a'r un breifat, ac wedi dangos na ellir dibynnu ar y sector breifat i ddiogelu'r budd cyhoeddus. Felly rŷm yn gobeithio y geilw Llywodraeth y Cynulliad am yr hawl i ddeddfu yn y maes hwn, ond mae'r un mor sicr y bydd galw arni i osod allan yn y Memorandwm Esboniadol sut y bwriedir defnyddio'r awdurdod hwnnw.

Sylwais gyda boddhad fod y Gweinidog yn datgan yn glir mai'r Cynulliad ddylai fod â'r cyfrifoldeb am ddeddfu ar gyfer y Gymraeg. Mae'n egwyddor sylfaenol a chywir, yn fy nhyb i, **mai** cynrychiolwyr etholedig pobl Cymru yn y Cynulliad, yn hytrach na chynrychiolwyr etholedig pob rhan o Brydain yn Westminster - ddylai benderfynu beth ydi anghenion yr iaith yn nhermau polisi a deddfwriaeth bellach.

[Ni wŷr mwyafrif llethol o'r AS o'r tu allan i Gymru fawr o ddim am y Gymraeg, - mai hi yw un o'r prif ffactorau a luniodd y genedl Gymreig ar hyd y canrifoedd a'n hunanymwybyddiaeth fel Cymry, nac am gefndir eu hargyfwng presennol.]

Ar wahân i waith rhagorol yr ysgolion yn cyflwyno'r Gymraeg i'r genhedlaeth newydd, efallai mai trosglwyddo i'r Cynulliad bwerau deddfu ar gyfer anghenion y Gymraeg, fedrai fod y newid mawr a fedrai sicrhau fod yr iaith yn cael y sylw, y gofal a'r parch y mae'n ei haeddu.

[Ond ymddengys i mi y bydd yn rhaid inni aros am y dydd pan y ceir bendith pobl Cymru mewn refferendwm dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 cyn y gellir trosglwyddo'r holl gyfrifoldeb deddfwriaethol am y Gymraeg i'r Cynulliad. Hwyrach y ceir barn yr Athro Thomas Watkin ar y pwynt hwn.]

Ond mae'n iawn i mi ddweud hyn - gwaith caled ydi llunio deddf, deddf fydd yn drylwyr, yn bwrpasol, yn effeithiol ac a fydd ar yr un pryd yn dderbyniol i'r farn gyhoeddus. Dyma'r gwaith pwysicaf mae'r ail siambr yn ei gyflawni yn Westminster y dyddiau hyn a byddaf yn rhyfeddu at ei drylwyredd. Ymddengys i mi fod yr Aelodau Seneddol - dan bwysau gwaith trwm yn eu hetholaethau - wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb am graffu ar bob cymal mewn Mesur seneddol i'r ail siambr. Mae'n waith di-ddiolch, ond cwbl angenrheidiol.

Yn aml, byddaf yn gofyn i mi fy hun, pwy gyflawna'r gwaith di-ddiolch, di-ramant hwn mewn perthynas â deddfwriaeth y Cynulliad i sicrhau ei fod yn gweithredu polisi y llywodraeth yn effeithiol? Mae'n her sylweddol i aelodau'r Cynulliad a'i weision sifil. Ac nid yn unig iddyn nhw, ond yn her sylweddol i'r ysgolion cyfraith yn ein Prifysgolion yng Nghymru i hyfforddi cenedlaeth newydd o gyfreithwyr i ddeall a meistrolï'r proses o lunio deddfau. A her sylweddol hefyd i'r cyrff statudol, gwirfoddol ac elusennol niferus yng Nghymru i gyflwyno gweledigaeth polisi i Gabinet ac aelodau'r Cynulliad. Felly, fe welwn fod sefydlu Cynulliad Cymru ym 1998 yn her i Gymru gyfan. Ond does dim rheswm pam na all Cymru ymateb yn llwyddiannus i'r her honno.

Aeth y Gweinidog, ymlaen i wneud datganiad cyffredinol - bod dyletswydd ar Lywodraeth y Cynulliad i greu'r amodau ar gyfer sicrhau ffyniant yr iaith. Wn i ddim a ydi'r "datganiadau cyffredinol" yn rhyw fath ar law-fer am beth arall a

geir trwy y Gorchymyn. Sut bynnag, hoffais y pwyslais, ond wedi dweud hynny, byddai'n dda iawn clywed mwy ganddo, efallai ar achlysur arall, am beth ydi'r amodau penodol sydd yn angenrheidiol ar gyfer sicrhau ffyniant y Gymraeg yn y ganrif hon - ym marn y Llywodraeth. Er enghraifft, ydi parhad y cymunedau Cymraeg, neu wasg Gymraeg o safon uchel, neu dwf cyson ysgolion cyfrwng Cymraeg yn amod ei ffyniant?

Dof rwan at fy mhwynt olaf – ac ar un ystyr, mae'n bwynt mwy anodd na'r lleill. Fe gyfeiriodd y Gweinidog ato'n gynnil, ac fe'i geir yn gynnil yn nheitl y Gynhadledd hon: **Y GORCHYMYN IAITH A HAWL I'R GYMRAEG**.

Rydw'i am aros gyda'r gair HAWL.

[Prin iawn ydi'r hawliau ieithyddol cyfreithiol sydd gan y dinesydd i ddefnyddio'r Gymraeg i fyw bywyd llawn yng Nghymru. Mae ganddo'r HAWL i'w defnyddio yn y llysoedd barn (Deddf Iaith 1967); a HAWL i gyflwyno cwyn ysgrifenedig wrth y Bwrdd Iaith os metha corff cyhoeddus â gweithredu ei gynllun iaith a bod y methiant wedi effeithio'n uniongyrchol arno. Oes ganddo unrhyw hawl ieithyddol gyfreithiol arall?]

Yn ei gyfrol garreg filltir, **Hawl i'r Gymraeg**, (a gyhoeddwyd ym mis Awst eleni) mae Gwion Lewis yn dadlau - os caf geisio grynhoi ei ddadl - y dylai'r mesur iaith newydd ddatgan bod gan bobl Cymru yr **hawl** i'r Gymraeg cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol o dan yr amgylchiadau". Gwêl yntau bod angen **amodi** yr **hawl**. [Gw. Barn, Hydref 2008]

[Dylsw'n ychwanegu y datblygwyd y ddadl hon gan Glyn Williams a Delyth Morris yn eu cyfrol, *Language Planning and Language Use*, a gyhoeddwyd yn 2000 (Gwasg Prifysgol Cymru.) Hefyd, galwodd y Bwrdd Iaith rhyw dair blynedd yn ôl am sefydlu hawliau ieithyddol fel 'rhan o agenda cydraddoldeb'.]

Fe fyddwch wedi sylwi i'r Gweinidog – yn hynod ddiddorol – groesawu cyfraniad Gwion Lewis, gan ragweld “y bydd ei *sylwadau* o gymorth i'r broses o ddeddfu”. ‘Wn i ddim a gytunwyd y frawddeg hon gan y Cabinet ynte siarad drosto'i hun yr oedd y gweinidog.

‘Rwan, seiliwyd ymgyrchoedd iaith y ganrif ddiwetha’ - ac eithrio am Faniffesto Cymdeithas yr Iaith ym 1982 ac am arweiniad Saunders Lewis - ar egwyddor - egwyddor dragwyddol - cyfiawnder i'r Gymraeg, yn hytrach nag ar egwyddor hawl i'r Gymraeg. Felly mae'r son am **Hawl i'r Gymraeg**, neu am **Hawliau leithyddol** yn symudiad pwyslais sylweddol iawn yn hanes yr ymgyrch iaith.

Yn hanesyddol, bu'r apêl am **gyfiawnder** i'r iaith yn un haws i'w chyflwyno i'r etholwyr ac i'r Aelodau Seneddol, na'r apêl am **hawl** i'r iaith - os ydy'r wers honno bellach o ryw help, a chredaf ei bod. Dyw'r byd ddim wedi aros yn ei unfan, debyg iawn. Mae syniadau am gyfiawnder a hawliau yn esblygu. Rydym, yn y chwarter canrif ddiwetha', wedi dod yn fwyfwy cyfarwydd â'r syniad o hawliau dynol sylfaenol ac o safle yr ail iaith yng ngwledydd y cyfandir. [Bydd Emyr Lewis yn sôn am hyn, fe dybiaf.] Ac rydym yn dod yn fwyfwy ymwybodol fod gan leiafrifoedd eu hawliau. Aeth yn fwy ffasiynol i sôn am hawliau ac iawndal pan dorrir hawl. Eto, yn y byd newydd hwn, a ydym lawer yn llai rhagfarnlyd? Rwy'n amau.

Mae gen i gydymdeimlad llwyr â'r ddadl y dylid cydnabod bod siarad y famiaith yn ei thriogaeth yn un o hawliau sylfaenol y dinesydd. Ond fel un sydd wedi byw ei fywyd yn gweithio drwy'r broses wleidyddol, mae'n hynod o bwysig ein bod yn cychwyn trafodaeth drylwyr ar rinweddau ac anafanteision symud y pwyslais o **egwyddor cyfiawnder** i **egwyddor hawliau** neu i **egwyddor hawliau fel rhan o agenda cydraddoldeb**. Heb fraenaru'r tir yn drylwyr medrai'r symudiad symbylu gwrthdrawiadau, neu elyniaeth, neu, hyd yn oed, galwad am greu **hawliau** i eraill, fel y boblogaeth ddi-Gymraeg yng Nghymru.

Carwn bwysleisio fy nghred, mae'n tasg ni garedigion yr iaith fydd annerch y mwyafrif yng Nghymru a'u synnwyr o gyfiawnder a thegwch. Ar ddiwedd y dydd, perswâd ydy'r sail ddiogelaf i'r ddadl wleidyddol hollbwysig.

Mae'n bryd i mi gloi.

Dros bump a deugain o flynyddoedd yn ôl, mi es yn gyfreithiwr ifanc i Neuadd y Ddinas hon - nid ymhell oddi yma - i roi tystiolaeth i Bwyllgor Syr David Hughes-Parry ar safle cyfreithiol y Gymraeg. Fe'm holwyd yn galed, ond yn foneddigaidd ganddo ef a'r Athro Glanmor Williams. Oedd angen Deddf Iaith newydd? Os oedd, ar ba egwyddor y dylid ei selio? A ddylai'r egwyddor honno weithredu'n unffurf trwy Gymru gyfan? Dyna'r math o gwestiynau, os cofiaf yn iawn.

Do, trwy lafur ac aberth gan laweroedd o'n pobl ifanc ar hyd yr hanner canrif olaf, fe gafwyd cynhaeaf a oedd yn edrych mor bell i ffwrdd pan oeddwn i (er enghraifft) yn rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Hughes-Parry. Ond heddiw rwy'n dychwelyd i Gaerdydd i gefnogi'r alwad am ddeddfwriaeth iaith bellach. Rwy'n mawr obeithio y bydd y Gynhadledd hon yn cyfoethogi'r drafodaeth gyhoeddus flaengar y mae gwir angen amdani. Ceisiais hoelio sylw ar rai o'r prif faterion sy'n codi, gan obeithio y bydd hyn o help.